# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Hydref 2022

Amser: 14.01 - 14.51

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13155

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Luke Fletcher AS<br>Altaf Hussain AS<br>Buffy Williams AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Masudah Ali (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Jack Sargeant AS a Joel James AS.

Roedd Altaf Hussain AS yn bresennol yn y cyfarfod, yn dirprwyo ar ran Joel James AS.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-06-1232 Rhoi terfyn ar sefydlu unedau dofednod dwys trwy ddeddfu a chyflwyno moratoriwm hyd nes y gellir cyflawni hyn

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu'n ôl at y Gweinidog i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr uwchgynhadledd a gynhaliwyd yn y Sioe Frenhinol, a gofyn pa bryd y cynhelir yr ymgynghoriad ar y nodyn cyngor technegol ar ddatblygiadau amaethyddol.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Gyngor Sir Powys i ofyn:

- sut y maen nhw'n ystyried effaith gronnol unedau dofednod dwys yn y broses gynllunio
- am ymateb i'r pryder a godwyd gan y deisebydd ynghylch diffyg tryloywder pan na chaiff yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r cais ei chyhoeddi; ac
- a oes arolwg amgylcheddol wedi'i gynnal i ddeall effeithiau'r crynodiad o unedau dofednod dwys ym Mhowys.

### 2.2 P-06-1286 Sicrhau bod triniaeth a sgrinio ar gyfer canser yn parhau yn ystod COVID19

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd y dylai cleifion yng Nghymru fod yn cael triniaeth gyfartal a sgrinio cyfartal, gan gytuno i ysgrifennu'n ôl at y Gweinidog i ofyn am unrhyw farn bellach sydd ganddi ar y mater hwn.

### 2.3 P-06-1289 Dylid cytuno ar ddeiliadaeth o 105 diwrnod, yn hytrach na 182 diwrnod, er mwyn helpu i wahaniaethu rhwng busnesau llety gwyliau ac ail gartrefi

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd y pryderon a amlygwyd ynghylch rhai busnesau hunanddarpar sy'n cael trafferth cyrraedd y trothwy o ran meddiannaeth. Fodd bynnag, nododd yr Aelodau fod y ddeddfwriaeth eisoes mewn grym a bod y

mater wedi’i drafod droeon yn y Senedd. Mae’r Gweinidog wedi gwneud ei barn yn glir fod hyn, bellach, yn fater i awdurdodau lleol. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd llawer mwy y gallent ei wneud a chytunwyd i gau’r ddeiseb a diolch i’r deisebydd.

### 2.19 P-06-1290 Galluogi trigolion Cymru i gael mynediad at lwybr diagnosis "Hawl i Ddewis" y GIG ar gyfer ADHD

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod hwn yn faes sy'n cael ei archwilio ymhellach gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel rhan o'i ymchwiliad iechyd meddwl. Cytunodd y Pwyllgor, felly, i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i dynnu sylw at y materion a godwyd yn y ddeiseb, cau’r ddeiseb a diolch i’r deisebydd am godi’r mater hwn.

### 2.5 P-06-1292 Gwneud i sefydliadau sector cyhoeddus Cymru adrodd ar allyriadau cwmpas 3 a'u cynnwys mewn targedau sero net

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu’n ôl at y Gweinidog i ofyn:

- sut y byddant yn gwybod pan fydd y sector cyhoeddus wedi cyrraedd sero net, os nad oes eglurder ynghylch eu hôl troed carbon llawn; a,
- sut mae cynllun Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ffordd gyson o fesur er mwyn sicrhau bod yr ôl troed carbon yn glir.

At hynny, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith i dynnu sylw at y ddeiseb hon, yn sgil eu gwaith ar Sero Net Cymru.

### 2.6 P-06-1293 Dylid darparu cyllid ar gyfer mynediad cyffredinol i Wasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu’n ôl at y Gweinidog i ofyn sut y mae Llywodraeth Cymru yn safoni'r broses o atal toriadau eilaidd esgyrn ledled

Cymru, gan wneud yn siŵr bod pob Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu'r broses o gomisiynu Cyswllt Torri Esgyrn o safon – sy'n cael ei ariannu'n llawn – a'r adnoddau sydd ar gael i ddiwallu anghenion eu poblogaeth.

### 2.7 P-06-1294 Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru ar ôl

Nododd y Pwyllgor y ddeiseb a chanmolodd ymroddiad a dewrder y deisebwyr i ymgyrchu dros welliannau, a chodi ymwybyddiaeth o'r cyflwr dinistriol hwn sy'n cyfyngu ar fywyd. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn cyn gynted â phosibl.

### 2.8 P-06-1295 Dylid cynnal arolwg cyhoeddus ar leihau'r terfyn cyflymder diofyn CYN iddo ddod i rym

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ac er i'r aelodau nodi rhwystredigaeth bersonol y deisebwyr, nodwyd bod y ddeddfwriaeth yn caniatáu i awdurdodau lleol ddiwygio'r terfyn cyflymder cenedlaethol rhagosodedig o 20mya i adlewyrchu amgylchiadau lleol. Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr aelodau i ddiolch i'r deisebydd, cau'r ddeiseb ac awgrymu bod y deisebydd bellach yn cysylltu â'i awdurdod lleol.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-06-1163 Dylid ymestyn y fwrsariaeth STEMM ôl-raddedig i bob myfyriwr MSc yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ohirio ystyried y ddeiseb ymhellach nes bod Cadeirydd y Pwyllgor, Jack Sargeant AS, yn bresennol o ystyried ei ddiddordeb blaenorol yn y maes pwnc hwn.

## 3.2 P-06-1218 Hysbysu pob person 18 oed sydd wedi derbyn gofal cymdeithasol fod ganddynt yr hawl i wneud cais am eu gwybodaeth bersonol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ac, o ystyried y ffaith bod y Gweinidog wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol, a phenaethiaid gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdodau lleol hynny, yn ailadrodd pwysigrwydd tryloywder i'r rhai sydd mewn gofal a'u gallu i gael mynediad at eu gwasanaethau preifat. gwybodaeth o'r adeg pan oeddent mewn gofal, cytunodd y pwyllgor i ddiolch i'r deisebydd am dynnu sylw at y mater hwn a chaeodd y ddeiseb.

## 3.3 P-06-1228 Talu bonws i athrawon uwchradd am farcio a safoni asesiadau swyddogol haf 2021

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod ymateb y Gweinidog yn glir nad yw'n bwriadu cyflwyno taliadau, felly cytunodd yr Aelodau nad oedd llawer mwy y gallent ei wneud ar y mater hwn a chytunwyd i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb. Nodwyd y gallai hwn fod yn faes y gallai Aelodau unigol ddewis parhau i'w amlygu.

## 3.4 P-06-1242 Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu'n ôl at y Gweinidog i ofyn y cwestiynau a ofynnwyd gan y deisebydd a Thriniaeth Deg i Ferched, gan gynnwys cynnig y deisebydd i weithio gyda hwy i lywio polisi yn y dyfodol.

At hynny, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofyn a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i gynnal unrhyw waith ar y maes hwn.

### 3.5 P-06-1262 Llywodraeth Cymru i gynnal ymchwiliad cyhoeddus i benderfyniadau a wnaed ganddi cyn ac yn ystod y pandemig

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd nad yw’r Prif Weinidog wedi newid ei farn ar y mater hwn. Cytunodd y Pwyllgor – o ystyried testun emosiynol y ddeiseb hon – y byddent yn ei gadael yn agored ac yn dychwelyd ati ymhen blwyddyn.

### 3.6 P-06-1269 Peidiwch â gadael i’r cynllun redeg allan ar gyfer pobl sy’n marw yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu'n ôl at Lywodraeth Cymru i ofyn y cwestiynau dilynol ynghylch capasiti ac amserlenni a ddarparwyd gan y deisebydd.

### 3.7 P-06-1271 Caffael y tir gan Network Rail lle mae ATR884 yn rhedeg fel llwybr caniataol a threfnu cynnal a chadw

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod galwad y ddeiseb i’r tir gael ei gaffael gan Network Rail i ddatblygu llwybr, bellach yn mynd rhagddo, gyda thrafodaethau ac archwiliadau o unrhyw faterion cyfreithiol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn digwydd hefyd. Cytunodd y Pwyllgor, felly, i longyfarch y deisebydd a chau'r ddeiseb.

### 3.8 P-06-1272 Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i ofyn a ellir ystyried y pryderon a godwyd yn y ddeiseb fel rhan o'u hymchwiliad i ddigartrefedd.

At hynny, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog, er mwyn tynnu sylw at y pryderon nad yw’r rheini sydd heb gytundeb tenantiaeth yn cael unrhyw amddiffyniad,

ac i ofyn pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn.

### 3.9 P-06-1274 Rhowch stop ar y camau i amddifadu Trefynwy o'i Cherbyd Ymateb Cyflym

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb, gan nodi bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn glir ynghylch y gwaith sydd wedi'i wneud i fodelu'r gwasanaeth o fewn yr adnoddau sydd ar gael, a thra bod y deisebwyr yn herio'r data a ddefnyddir ar gyfer y gwaith hwn ac yn tynnu sylw at y risg o golli cerbyd ymateb cyflym yn Sir Fynwy, bu cyfathrebu agored, gan gynnwys cyfarfod. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd yn glir pa gamau pellach y gellid eu cymryd a chytunwyd i gau'r ddeiseb.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.